**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Petition P-06-1299
Ein cyf/Our ref LW/01865/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

03 Hydref 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Medi ynglŷn â deiseb P-06-1299 Llywodraeth Cymru 'Rhewi adeiladu ffyrdd" i gynnwys cymal am achosion sy'n berygl i fywyd.

Gellir gweld Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Adolygu Ffyrdd ar ein gwefan yn Cylch gorchwyl: Panel Adolygu Ffyrdd | LLYW.CYMRU

Fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, yn y dyfodol ac yn unol â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, bydd un o'r blaenoriaethau a'r ffocws ar gyfer buddsoddi mewn ffyrdd ar:

• fuddsoddiad sy'n cynnal diogelwch a defnyddioldeb y rhwydwaith ffyrdd presennol i gydymffurfio â dyletswyddau statudol.

Mae swyddogion bellach wedi dechrau'r broses o ystyried Adroddiad Terfynol y Panel. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cyngor y Panel i lywio penderfyniadau ar y 55 cynllun y mae'r Panel yn darparu cyngor penodol yn eu cylch, yn ogystal â dyfodol buddsoddi mewn ffyrdd, yn y misoedd canlynol. Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r adroddiad unwaith fydd y broses honno wedi ei chwblhau.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.